Awgrymiadu Defnyddiol 5

Datblygiad Iaith

Sgiliau eraill sy'n gysylltiedig ag iaith

Bydd cynnwys y gweithgareddau hyn, sy'n seiliedig ar chwarae, ym mywyd bob dydd y cartref yn helpu pob plentyn ifanc i ddatblygu iaith a gall fod o gymorth penodol i blant sy'n dechrau siarad yn hwyrach neu sydd â phroblemau o ran gwrando ar bobl eraill a thalu sylw iddynt.

Canolbwyntio

- Defnyddiwch gliwiau gweledol i geisio cadw eu sylw wrth adrodd stori.
- Wrth adrodd stori, amrywiwch eich cywair, tôn a llais.
- Dewiswch straeon neu ganeuon sy'n cynnwys ystumiau a rhigymau bys.
- Adroddwch straeon hirach dros amser.
- Defnyddiwch gerddoriaeth, rhythm ac odlau i helpu i feithrin cof clywedol, er enghraifft "Fe es i i'r farchnad i brynu..."

Dilyniant a threfnu

- Trefnwch eitemau yn rhai mawr a bach, er enghraifft "Dyma'r esgid fawr a dyma'r esgid fechan".
- Defnyddiwch fathau gwahanol o eitemau fel esgidiau, briciau, tatws a hosanau.
- Gadewch i'r plentyn eich helpu i grwpio'r eitemau yn rhai mawr a bach, hir a byr, rhai tebyg a gwahanol.

Canfyddiad gweledol a chof

- Defnyddiwch gemau cardiau fel parau.
- Chwaraewch loto lluniau.
- Datblygwch eu cof gweledol drwy ofyn iddynt beth sydd ar goll mewn llun neu olygfa.
- Gofynnwch i'r plentyn gopïo patrymau dilynol.

Afasic Cymru
Ystafell 203
Tŷ Titan
Canolfan Fusnes Bae Caerdydd
Heol Lewis
Ocean Park
Caerdydd CF24 5BS

Ffôn: 029 2046 5854
Ffacs: 029 2046 5861
Llinell gymorth: 08453 55 55 77
E-bost: jeannette@afasiccymru.org.uk
www.afasiccymru.org uk

Afasic Cymru